# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 17 MAWRTH 2022

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins (Cadeirydd), John Pughe Roberts ac Ioan Thomas

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Osian Richards (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled Wyn Jones, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy) a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Llongyfarchwyd Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau, Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd) ar gael ei enwebu yn gynrychiolydd aelodau ar Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd y trefniant yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor ar y 24ain o Fawrth 2022.

## 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2022/23 ei

gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2022.

Eglurwyd, ar hyn o bryd, bod yr holl arian sydd dros ben yn y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Nodwyd, yn unol â chyngor cyfreithiol, mai buddiol yw cymeradwyo'r ymarfer yn flynyddol gan geisio dychweliadau o fewn ffiniau diogel a lleihau risgiau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor.

Amlygwyd bod cod ymarfer CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus gan ystyried diogelwch a hylifedd cyn ceisio am enillion neu'r cynnyrch uchaf. Ategwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i daro cydbwysedd gyda'r ffactorau hyn a bod mesurau gwirfoddol i amlygu sensitifrwydd i'r risgiau diogelu credyd a hylifedd wedi eu mabwysiadau - bydd diweddariad ar y dangosyddion rheolaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor pob hanner blwyddyn. Tynnwyd sylw at y gwrthbartion hynny sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi ynddynt (llywodraeth leol, awdurdodiad lleol, banciau, cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun) ynghyd a'r terfynau amser a'r cyfyngiadau buddsoddi.

Prif fanteision yr ymarfer yw denu llog uwch, isafu costau banc ac osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd mai cadw'r Gronfa yn ddiogel a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

*PENDERFYNWYD:*

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2022 ymlaen.**

## 6. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL

***Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Adroddwyd bod Buddsoddi Cyfrifol wedi datblygu yn bwnc trafod pwysig a phoblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf a bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cymryd camau cadarnhaol yn y maes, yn gynnwys rhyddhau datganiadau buddsoddi cyfrifol yn Ebrill a Gorffennaf 2021 sydd bellach wedi eu ffurfioli o fewn y polisi.***

***Nodwyd bod y polisi yn amlinellu mai nod y Gronfa yw sicrhau enillion buddsoddi cryf dros y tymor hir gan ddiogelu buddiannau rhanddeiliad, er yn cydnabod y gall materion llywodraethu, amgylcheddol a chymdeithasol gynrychioli risg ariannol sylweddol i'r rhanddeiliaid a dylanwadu ar elw ac enw da'r Gronfa. Ategwyd bod y polisi hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ganllawiau cyfreithiol, credoau buddsoddi, ymgysylltu a datgelu ac adrodd gan ddisgrifio'r egwyddorion a'r gweithdrefnau hynny y mae'r gronfa yn ei ddilyn yn y maes buddsoddi cyfrifol.***

***Cyfeiriwyd at ymrwymiad net sero'r Gronfa gan amlygu ystyriaeth o***

*ymrwymo i darged net erbyn 2050, ond asesu'r posibilrwydd yn barhaus o gyrraedd 5,10, neu 15 mlynedd ynghynt. Amlygwyd nad oedd dymuniad gosod targed heb gynllun o sut i'w gyrraedd, ond nodwyd bod y targed o 2050 yn cyd fynd gyda tharged Rusell Investments Darparwr Atebion Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Tynnwyd sylw at y fframwaith a ddatblygwyd i gefnogi'r uchelgais sydd yn cwmpasu cyfleoedd, ymgysylltu, monitro a metrigau.*

*Ategodd Cyfarwyddwr y Gronfa, er nad oedd targed wedi ei osod yn flaenorol bod ymrwymiad i fod yn sero net a chamau rhesymol wedi eu cyflawni at gyrraedd hyn wedi eu gweithredu, ond bod disgwyliad bellach i osod targed a ffurfioli'r sefyllfa.*

*Cyflwynwyd y polisi i'r Bwrdd Pensiwn am sylwadau Mawrth 7fed 2022. Nodwyd bod eu cynigion wedi eu hymgorffori yn y polisi*

*Diolchwyd am yr adroddiad*

*Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.*

*Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â goblygiadau'r Mesur Sancsiynau gan Lywodraeth San Steffan yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ymddengys bod Llywodraeth San Steffan eisiau cyfyngu cronfeydd o weithredu yn Wleidyddol. Er i rai penderfyniadau gael eu herio yn y gorffennol ymddengys bod bwriad gan y Llywodraeth i osod polisi, ond ystyriwyd y gall hyn amrywio yn ddibynnol ar y llywodraeth sydd mewn grym ar y pryd. Amlygodd bod y 'dyletswydd ymddiriedol' yn rheoli'r cyfyngiadau ar hyn o bryd ac yn unol ag awgrym y Bwrdd Pensiwn bod cyfeiriad at hyn wedi ei gynnwys yn y Polisi.*

*Yng nghyd-destun Rwsia a Wcráin amlygwyd bod gan y Pwyllgor yr un farn, y grym a'r hyder i ddylanwadu ar y portffolio drwy rannu pryder am y sefyllfa gydag aelodau'r Cynllun gan ryddhau datganiad a thrwy nodi nad oedd risg o niwed ariannol sylweddol i'r Gronfa o fuddsoddi a Rwsia (llai na 1%). Gyda materion eraill megis arfau, nid oes un farn gyffredin ymysg mwyafrif aelodau'r Gronfa, ac mae'n heriol i adnabod maint y buddsoddiadau. Derbyniwyd fod hyn yn anodd, a rhaid bod yn gyfforddus o'r sefyllfa cyn symud ymlaen, gan fod y dyletswydd ymddiriedol yn berthnasol yma.*

*Mewn ymateb i sylwadau am osod targed sero net ac o'r posibilrwydd o gyrraedd y targed cyn 2050, amlygodd y Cadeirydd bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad dylai sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yng nghyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd Mawrth 3ydd 2022, cymeradwywyd mabwysiadu a gweithredu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030. Bydd y cynllun yma yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor carbon sero-net erbyn 2030. Er mwyn cysoni'r uchelgais yma gyda'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, awgrymwyd addasu'r amserlen fel bod uchelgais i gyrraedd y nod o fod yn sero net erbyn 2030.*

*Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi comisiynu cwmni Robeco i ymgysylltu gyda rheolwyr asedau'r gronfa mewn perthynas â gweithgarwch pleidleisio ar faterion sydd yn ymwneud â'r hinsawdd, ac i ymgysylltu gyda'r cwmnïau mae cronfewydd PPC yn buddsoddi ynddynt, i ddylanwadu a gwella eu gweithgareddau ac ymddygiad ar faterion yn ymwneud â hinsawdd. Ategwyd bod mesurau pellach i'w mabwysiadu ynghyd â gofynion 'TCFD' (Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd). Cyfeiriwyd at yr atodiad i'r polisi – 'Monitro Rheolwyr Asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd', sydd yn ddogfen fyw*

***fydd yn cadw cofnod o'r datblygiadau yn y maes buddsoddi cyfrifol mae'r holl reolwr asedau wedi eu cyflawni.***

***Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Polisi yn ddarostyngedig i addasu'r amserlen fel bod uchelgais i gyrraedd y nod o fod yn sero net erbyn 2030, os yn bosib.***

*PENDERFYNWYD*

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Cymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ddarostyngedig i addasu cymal o dan y pennawd 'Lleihau Allyriadau Carbon y Gronfa ac Amcanion y Dyfodol'**

  **"... mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt..."**

  **i**

  **"... mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 20 mlynedd ynghynt..."**

***Nododd y Cadeirydd bod cwestiynnau gan y cyhoedd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor a rhoddwyd ymatebion i'r cwestiynnau hynny gan Gyfarwyddwr y Gronfa:***

1. ***Gan gofio natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil yng ngoleuni rhyfel Rwsia; adroddiad diweddar yr IPCC, a barn arbenigwyr bod ymgysylltu â chyfranddalwyr yn arwain at siarad yn hytrach na gweithredu, a wnaiff y pwyllgor ymrwymo yn awr i wyro oddi wrth yr holl asedau sy'n ymwneud â thanwydd ffosil yn yr amser byrraf posibl? Rwy'n galw am ddadfuddsoddi o fewn 2 flynedd.***

   **Nodwyd bod Polisi Buddsoddi Cyfrifol uchelgeisiol bellach wedi ei fabwysiadau a bod tystiolaeth sylweddol o'r camau y mae'r Gronfa eisoes wedi ei gymryd i weithredu. Gan fod asedau'r Gronfa'n cael eu buddsoddi'n fyd-eang, ac ar draws llawer o sectorau, bydd lleihau allyriadau carbon y Gronfa yn fwy heriol nag y byddai i sefydliad unigol. Felly, ni fydd modd ymrwymo i ymateb yn gynt oherwydd y dyletswydd ymddiriedol.**

2. ***O ystyried y swm sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos nad yw ymgysylltu yn arf effeithiol i sicrhau bod cwmnïau'n tynnu'n ôl o danwydd ffosil yn enwedig o fewn yr amserlen sydd ei hangen, a fydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn hytrach yn canolbwyntio ei ymdrechion ar ddadfuddsoddi?***

   **Tanlinellwyd drwy gyfeirio at esiamplau yn yr atodiad i'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sy'n monitro cynnydd rheolwyr asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd bod dadfuddsoddi eisoes yn cael ei weithredu, lle'n bosibl, gyda pharch dyledus i'r dyletswydd ymddiriedol ac amodau cyfreithiol eraill.**

   **Cadarnhawyd barn y Pwyllgor a'r swyddogion fod ymgysylltu yn arf hanfodol, ac ymhelaethwyd fod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi comisiynu cwmni Robeco i ymgysylltu gyda rheolwyr â'r cwmnïau rydym yn buddsoddi ynddynt i ddylanwadu a gwella eu**

**gweithgareddau ac ymddygiad ar faterion yn ymwneud â hinsawdd, ynghyd a cheisio dylanwadu'r cwmnïau hynny gan eu hannog i symud o danwydd ffosil i ynni adnewyddol.**

3. ***A ellir darparu diweddariad ar: (a) faint o arian y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'i fuddsoddi ar hyn o bryd mewn asedau sy'n ymwneud â thanwydd ffosil a (b) datblygiad polisi buddsoddi cyfrifol y gronfa?***

   ***(a)*** **Cadarnhawyd bydd gofynion adrodd penodol 'TCFD' ar gyfer cronfeydd CPLlL yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn nesaf, ac yn y cyfamser, nid oes dull cydnabyddedig o adrodd yn gyson.**

   ***(b)*** **Ymhelaethwyd fod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol uchelgeisiol bellach wedi ei fabwysiadau.**

4. ***A yw'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhyfel yn Wcráin, yr ansicrwydd ynghylch cyflenwad olew a nwy a'r ymgyrch o'r newydd i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn tynnu sylw at natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil?***

   **Nodwyd nad y rhyfel yn unig sydd wedi amlygu'r ansicrwydd yma, bod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried natur ansicr buddsoddiadau tanwydd ffosil, a bod camau perthnasol eisoes wedi'u cymryd, fel y'i amlinellwyd yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol ai'r atodiad sy'n monitro cynnydd.**

5. ***A fyddech chi'n ystyried strategaeth o restru'r cwmnïau mwyaf llygredig o'ch portffolio buddsoddi ac ymuno â'r NZAOA (Cynulliad y Cenhedloedd Unedig - Net Zero Asset Owner Alliance)***

   **Bod Cronfa Gwynedd yn derbyn cyngor ac yn gweithredu yn unol â'r cyngor hynny. Nodwyd nad oedd bwriad ymuno gyda NZAOA ar hyn o bryd, ond fod parodrwydd i ymchwilio i'w rhinweddau ac i rannu gwybodaeth gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, pe bai'n fuddiol.**

***Gwerthfawrogwyd diddordeb y cyhoedd yn y pwnc ac anogwyd hwy i gyflwyno eu cwestiynnau yn gynt fel bod modd i'r swyddogion a'r aelodau gael cyfle i baratoi ymatebion llawn.***

## 7. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymateb i argymhellion Adolygiad Llywodraethu Da i awdurdodau sicrhau bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor Pensiynau lefel digonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol. Nodwyd, fel rhan o baratoi'r polisi newydd, rhannwyd copi drafft o'r polisi gyda Hymans Robertson a'r Bwrdd Pensiwn er mwyn derbyn adborth.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Hyfforddiant sydd wedi ei lunio ar gyfer 2022/23 ac at bwysigrwydd cael proses anwytho yn ei le ar gyfer newidiadau posib i aelodaeth Pwyllgor a Bwrdd Pensiwn o ganlyniad i etholiad Mai 2022. Tynnwyd sylw at y cofnod hyfforddiant gan ofyn i'r Aelodau sicrhau eu bod yn cofnodi presenoldeb i sesiynau hyfforddiant rhithiol yr oeddynt yn mynychu, gyda'r Rheolwr Buddsoddi.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod y polisi yn un i'w groesawu

- Bod hi'n hanfodol sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i Aelodau wneud y gwaith
- Croesawu strwythur proffesiynol i'r hyfforddiant

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i aelodau gwblhau cwrs hanfodion er mwyn gallu pleidleisio mewn pwyllgorau, ac os mai canllaw ynteu rheol oedd y datganiad, nodwyd bod rhaid sicrhau bod gan aelodau ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau ystyrlon, er bod mandad ganddynt i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor. Amlygwyd y disgwyliad i ddysgu'r drefn, ond na ellid gorfodi'r hyfforddiant ar unrhyw un.

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau a'r Cynllun Hyfforddiant 2022/23**

## 8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi diweddariad ar weithgareddau Partneriaeth Pensiwn Cymru gan nodi bod y cydweithio wedi mynd o nerth i nerth ers sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn bod 83% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio - 56% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Tynnwyd sylw at berfformiad y cronfeydd oedd wedi bod yn gyfnewidiol yn ddiweddar oherwydd amgylchiadau heriol iawn a nodwyd y byddai'r PPC yn monitro eu perfformiad yn fanwl. Adroddwyd bod trosglwyddo marchnadoedd datblygol o Fidelity i PPC ym mis Hydref 2021 wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda 6 rheolwr o fewn y gronfa, yn cynnwys 5% wedi ei neilltuo i Bin Yan, sef arbenigwr Tsiena. Ategwyd bod 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i gosod ar y gronfa yma sydd yn lleihau ôl troed carbon o 25%.

Adroddwyd mai'r camau nesaf yng ngwaith y Bartneriaeth yw ceisio opsiynau cyfuno asedau i'r categori marchnadoedd preifat. Nodwyd bod grŵp wedi ei sefydlu i arwain ar y gwaith fydd yn cael eu cefnogi gan Hymans Robertson. Nodwyd mai credyd preifat ac isadeiladwaith yw ffocws cyntaf y grwp gyda phroses pwrcasu wedi cymryd lle yn ddiweddar, fydd yn argymell rheolwyr addas i'r Cydbwyllgor apwyntio rheolwyr. Bydd y grŵp hefyd yn ceisio pwrcasu rheolwr ecwiti preifat.

Yng nghyd -destun cynrychiolydd aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu adroddwyd bod y broses apwyntio wedi digwydd gyda'r argymhelliad, fel y nodwyd eisoes, bod Osian Richards Aelod o Fwrdd Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei benodi'n gynrychiolydd.

Cadarnhawyd ar Fawrth 10fed 2022, bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyrraedd y safon adrodd ddisgwyliedig yn 2021 ac o ganlyniad yn cael ei restru fel llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. Ategwyd bod hyn yn gamp arwyddocaol ac yn adlewyrchu'r llywodraethu a stiwardiaeth gref o fewn y Bartneriaeth.

Diolchwyd am y diweddariad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

Cymerodd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Peredur Jenkins y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff perthnasol am eu cefnogaeth ac i'w gyd-aelodau ar y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn am gydweithio a thrafod yn dda. Dymunwyd y gorau i bawb i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Peredur Jenkins am ei waith a'i gefnogaeth i'r Pwyllgor Pensiynau dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Dymunwyd ymddeoliad hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**